# Atebion

Dyma rôl y bobl sy'n gweithio ar raglenni **Prynhawn da** a **Heno**, sy'n cael eu cynhyrchu gan gwmni Tinopolis ac sy'n cael eu dangos ar S4C:

- **Y golygydd** – y golygydd sy'n gyfrifol am y rhaglen ac mae'n gwneud yn siwr bod y cynnwys yn addas ac yn dilyn 'brand' y gyfres gyfan.
- **Y tîm golygu** – dyma'r bobl sy'n rhoi'r eitemau at ei gilydd. Maen nhw'n dod â holl ddarnau'r rhaglen at ei gilydd – fel gwneud jig-so.
- **Ymchwilwyr** – mae'r ymchwilwyr yn edrych i mewn i bynciau, trefnu gwesteion, ffilmio eitemau a chynnig syniadau ffres, newydd.
- **Graffeg** – mae'r adran graffeg yn paratoi'r pethau rydych chi'n gallu eu gweld ar y sgrîn, fel y lluniau, geiriau ac ati. Mae angen bod yn berson creadigol iawn i weithio yn yr adran hon.
- **Cynhyrchydd** – y cynhyrchydd sy'n gyfrifol am gynnwys y rhaglen: pwy sy'n siarad, ym mha drefn, sut mae un peth yn plethu i'r llall. Mae'r cynhyrchydd yn sicrhau bod pawb yn hapus ac yn gwneud beth maen nhw i fod i'w wneud.
- **Colurwyr** – dyma'r bobl sy'n gwneud colur y cyflwynwyr a'r cyfranwyr.
- **Cyflwynydd** – dyma'r person sy'n cyflwyno'r rhaglen o flaen y camera, ond mae'n gwneud llawer o waith paratoi, ymarfer ac ati cyn y ffilmio.
- **Camerâu** – y camerâu sy'n recordio popeth ar lawr y stiwdio neu ar leoliad. Mae angen llygaid creadigol iawn a llawer o amynedd achos weithiau rhaid ffilmio rhywbeth dro ar ôl tro nes cael y gwaith yn gywir.
- **Sain** – mae'r person sain yn gwneud llawer o swyddi; gall fod allan o'r stiwdio, ar leoliad, yn recordio popeth neu ar lawr y stiwdio yn sicrhau bod pawb yn cael eu recordio; hefyd, gall fod

yn dybio, sef cyfuno’r wahanol elfennau o fewn eitem gyda’i gilydd. Mae angen clust dda ar y bobl sain!

- **Cyfarwyddwr** – y cyfarwyddwr sy’n rheoli pethau. Mae’n eistedd yn y ‘galeri’ pan mae’r rhaglen yn fyw ac yn dewis beth sy’n cael ei weld ar y sgrîn a phryd.
- **Cynorthwyydd cynhyrchu** – mae’r cynorthwyydd cynhyrchu yn cadw golwg fanwl ar y cloc. Mae’n gwneud yn siwr bod y rhaglen yn cael ei darlledu ar yr amser cywir ac yn gorffen i’r eiliad. Does dim eiliad i’w sbario yn y byd teledu! Mae angen mathemateg wych i wneud y swydd hon!
- **Peirianwyr** – y peirianwyr yw’r ddolen gyswllt rhwng y stiwdios ac S4C yng Nghaerdydd. Os oes 'na broblem dechnegol, nhw fydd yn ei datrys ac yn sicrhau bod y rhaglen yn cyrraedd yn brydlon!